

Mae eglwys Tal-y-Llyn wedi ei chysegru ers canrifoedd i'r Fendigaid Forwyn Fair. Mae peth tystiolaeth i awgrymu ei bod wedi ei chysegru yn gynharach i St Tudur, un o deulu o saint o'r 6ed ganrif a oedd yn gysylltiedig â Môn. Ei frawd Tyfrydog yw nawddsant Llandyfrydog, tua deng milltir i ffwrdd. Fel yn achos gymaint o saint o'r cyfnod, credir fod Tudur wedi ei gladdu ar Ynys Enlli. Mae'r eglwys, a oedd yn wreiddiol yn gapel anwes i eglwys gyfagos Llanbeulan (hefyd, ers 2005, yng ngofal y Friends) erbyn hyn yn sefyll mewn arwahanrwydd gogoneddus ar fwnt wedi ei godi a all ddyddio o gyfnod cynhanesyddol, ond yn y cyfnod Cristnogol roedd yn ffurfio'r "llan" neu'r fan cysegredig amgaeedig gyda Thŷ Gweddi y sant yn ei ganol.

Hanes

Ar un adeg roedd yr eglwys yn gwasanaethu cymuned o fwy nag ugain aelwyd, ond cafodd ei ddinistrio fwy neu lai gan y 'Pla Du' canol y 14^{ed} ganrif. Fel yn achos adeiladau syml eraill o'r math hwn, mae'n anodd ei ddyddio, ond mae'n bosib bod y corff, bron yn sgwâr dwbl, yn dyddio o'r 12^{fed} ganrif, dyddiad sydd yn cael ei ategu gan bennau crynion porth y gorllewin ac agen y clochdy uwchlaw, a'r ffaith bod y fedyddfaen wreiddiol, erbyn hyn yn eglwys gyfagos Llanfaelog, yn dyddio o'r cyfnod hwnnw. Mae'r adeilad wedi ei ehangu sawl gwaith. Ymddengys bod y gangell o'r 13^{ed} ganrif wedi ei ehangu yn y 16^{ed}, fwyaf tebyg yr un pryd ag y codwyd capel teulu Wood. Gwnaeth y teulu newidiadau mawr i'w tŷ, Tal-y-Llyn, c.1597, ac mae'n debyg bod y gwaith ehangu yn yr eglwys o'r un dyddiad. (Mae un o gyplau to'r gangell o'r cyfnod hwn.) Ailddodrefnwyd yr eglwys yn ddiweddar yn y 18^{fed} ganrif, ac arhosodd fwy neu lai heb ei addasu wedi hynny. Aeth dan ofal y Friends of Friendless Churches ym 1999.



Dyddiad ar y rheiliau cymun

Yr eglwys heddiw

Mae Eglwys y Santes Fair o adeiladwaith syml a phlaen, y gwaith carreg nadd ar y cyfan wedi ei gyfyngu i'r ffenestri o ddiwedd yr 16^{ed} ganrif. Ar ochr allanol y ffenestr ddwyreiniol tri golau mae dwy garreg yn cydweddu, un wedi ei cherfio a H, ac ar y llall, yn annarllenadwy erbyn hyn, W efallai. Ceir nodwedd debyg, carreg gyda'r llythrennau HW arni, yn ymddangos ar un o'r ffenestri, o 1587, yn Nhŷ Tal-y-Llyn, cartref teulu Wood bryd hynny.



Bedyddfaen

Fflagiau carreg yw'r llawr, gyda'r corff yn cadw ei feinciau carreg, cul, canoloesol, yr unig seddau oedd ar gael yn y cyfnod hwnnw, ar hyd furiau'r gogledd a'r de. Yn rhyfedd, ailadroddir y nodwedd hon yn y capel o'r 16^{ed}/17^{ed} ganrif, ac erbyn y dyddiad hynny, fe dybir, fe fyddai'n ddiangen. Mae'r fedyddfaen wythonglog, darn o waith soffistigedig, yn dyddio o'r 15^{fed} ganrif ac yn cymryd lle yr un gynharach, wedi ei gosod erbyn hyn, braidd yn lletchwith, yn erbyn wal ddeheuol y corff, sefyllfa a oedd wedi ei orfodi gan yr ailddodrefnu yn y 18^{fed} ganrif fwyaf tebyg.

Mae'r seddau yn y corff o ddiddordeb arbennig, yn ddim mwy na chyfres o estyll heb gefn wedi eu gosod ar un pen i mewn i'r meinciau carreg, ac yn cael eu cynnal gan rodau coed ar y pen arall. Goroedd meinciau estyll tebyg yn un arall o eglwys i'r Friends ar Fôn, Llanfigael. Yma yn Nhal-y-Llyn mae un yn dangos y dyddiad 1786. Yn anffodus, cyn i'r eglwys ddod at y Friends, cafodd y cyfan namyn un o'r meinciau hyn eu dwyn, ac ar wahân i'r un honno a orosodd, atgynrychiadau medrus o'r rhai gwreiddiol ydynt. Gall fod seddau mor gyntefig yn dynodi i agwedd draddodiadol y gynulleidfa, yn sefyll ar gyfer addoli ac yn eistedd ar gyfer y bregeth yn unig, orosi braidd yn hwy yma na mewn lleoedd eraill.



Golygfa o'r corff a'r gangell

O ddiddordeb arbennig yn y gangell ceir y rheiliau Cymun a phaneli'r gysegr, y cyntaf yn amlwg wedi ei ddyddio i 1764. Mae eu paent llwydlas yn nodweddiadol o'r cyfnod. Ers dod dan ofal y Friends, mae waliau mewnol yr eglwys wedi eu gwyngalchu gan Ned Scharer.



Testun: Matthew Saunders, wedi ei adolygu gan John Morgan-Guy. Ffotograffiaeth: Martin Crampin

Eglwysi cyfagos sydd hefyd dan ofal y Friends

Sant Bigail, Llanfigael eglwys o'r 18^{ed} ganrif wedi ei hailadeiladu ym 1841 gyda thu mewn cyflawn Sioraidd a thair bedyddfaen, y cynharaf ohonynt yn 14^{eg} ganrif (eglwys ar agor).



Sant Afran, Sant Ieuan a Sant Sannan, Llantrisant Mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r 14^{eg} ganrif ond gyda safle sydd yn gynharach, a'r capel deheuol yn dyddio o'r 17^{eg} ganrif. Un o'n heglwysi mwyaf anghysbell, ond yn un sydd yn cael ei hymweld amlaf (eglwys ar agor).



Sant Peulan, Llanbeulan Nepell o Dal-y-Llyn. Mae'r fedyddfaen gerfiedig yn yr eglwys ganoloesol hon yn waith hynod o hanner cyntaf yr 11^{eg} ganrif (eglwys ar agor).



Sant Baglan, Llanfaglan Ceir yr eglwys yn agos at Fôn yn edrych dros fae Caernarfon, nepell o Gaernarfon. Wedi ei lleoli mewn cae mawr mae ei ffurf yn awgrymu tarddiad cyn-Gristnogol ac mae carreg gerfiedig o'r bumed neu'r chweched ganrif wedi ei gosod yn y cyntedd (mynediad trwy ddeiliad yr allwedd).



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1857 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu? Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi!

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi yr ydych yn derbyn tri Cylchlythyr bob blwyddyn, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgysrsiau, cyfarfodydd, llyfrau; a'r Trafodion blynyddol.

Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, St Ann's Vestry Hall, 2 Church Entry, London EC4V 5HB. Neu ewch ar y wefan.

Yr ydym yn falch iawn mai symiau bychain o arian yn unig yr ydym yn ei wario ar weinyddiaeth. Felly mae arian a roddir yn mynd yn uniongyrchol at yr adeiladau. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934. Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097.

<http://www.friendsoffriendlesschurches.org.uk>



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



*Eglwys y Santes Fair
Tal-y-Llyn*
cyflwyniad i'w hanes